



Atodiad: Oedfaon Ychwanegol

Ymgyrch
Eglwysi Dementia-gyfeillgar
Undeb yr Annibynwyr Cymraeg



Diolchiadau

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r deg a enwir isod (yn nhrefn yr wyddor) am baratoi un neu ragor o oedfaon addas ar gyfer yr ymgyrch. Mae wyth o'r oedfaon i'w gweld yn Adran 3 y llawlyfr *Heulwen Dan Gymylau*, sef Patrymau ar gyfer Oedfaon, ac mae un ar ddeg o oedfaon ychwanegol ar gael yn yr atodiad hwn:

Carys Ann, Owain Llŷr Evans, R. Alun Evans, Gwyn Elfyn Jones, Trefor Jones-Morris, Guto Llywelyn, Sian Meinir, Hywel Wyn Richards, Robin Wyn Samuel a Mererid Mair Williams.

Iestyn Hughes

am ei ganiatâd i gynnwys y lluniau ar dudalennau 4, 19 a 33 yr atodiad.

Elinor Wyn Reynolds, Rhodri Darcy ac Ann Williams o Dŷ John Penri, am eu cymorth parod a chyson.

Dylunydd:

stiwedio@ceri-talybont.com


Cyhoeddwy:

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Mehefin 2022

Cyflwyniad

Nid pawb sy'n teimlo'n gyfforddus wrth feddwl am gynnal oedfa i gynnwys pobl sy'n byw gyda dementia, ac eto mae'n sefyllfa y bydd yn rhaid i fwy a mwy ohonom ei hwynebu yn y blynyddoedd sydd i ddod. Er nad yw'r cyflwr wedi ei gyfyngu'n llwyr i bobl hŷn, fe wyddom fod dementia yn dod yn llawer mwy cyffredin wedi croesi'r 65 oed. Yn wir, mae rhai arbenigwyr yn proffwydo y bydd 1 o bob 3 o bobl dros yr oedran hwnnw wedi eu heffeithio erbyn canol y ganrif bresennol. Gyda hynny mewn golwg, mae'n debygol iawn y bydd cynulleidfaoedd ein capeli yn gorfod dysgu byw gyda dementia ar raddfa eang iawn.

Ar y funud, mae yna berygl i rai sydd wedi eu heffeithio gan ddementia gadw draw o'r oedfaon am wahanol resymau. Yr her i ni i gyd yw ceisio atal y duedd honno, ac ymdrechu i gynnal oedfaon sy'n croesawu'r rhai sy'n byw gyda'r cyflwr, a'u gofalu.

Mae'r llawlyfr 'Heulwen Dan Gymylau' yn cynnwys wyth patrwm oedfa y gellir eu defnyddio i greu awyrgylch gynhwysol, groesawgar. Yn yr Atodiad hwn, fe welwch ragor o oedfaon a fyddai'n addas i'r un diben, ac y medrwch eu lawrlwytho at eich defnydd. Hefyd mae sleidiau PowerPoint ar gael i'w lawrlwytho o wefan yr Undeb i gyd-fynd â rhai o'r oedfaon ac fe nodir hynny gyda'r symbol  o dan deitl yr oedfaon hynny.

Dyma rannau eraill o'r llawlyfr a allai fod o ddiddordeb:

- Seiliau Diwinyddol Eglwys Ddementia-gyfeillgar
- Beth yw Oedfa Ddementia-gyfeillgar
- Grym Cerddoriaeth



Cynnwys

	Tud
Yr Ystwyll	6
Dal Ati	11
Mwynhau'r Gân	15
Derbyn Pethau	18
Pererindod	22
Hanes Ruth	28
Hanes Esther	32
Hanes Abigail	36
Bwyd	40
Y Deg Gorchymyn	43
Salm 23	48